

3020U20-1DD

**DYDD MERCHER, 24 EBRILL 2024 –
PRYNHAWN
*WEDNESDAY, 24 APRIL 2024 –
AFTERNOON***

**CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2
*WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2***

**PRAWF DD (Diwrnod 3)
*TEST DD (Day 3)***

**CYFATHREBU AG ERAILL
*COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE***

**COPI'R YMGEISYDD
*CANDIDATE'S COPY***

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dewiswch UN dasg.

Cewch hyd at 10 munud (a'ch amser estynedig) i baratoi'r dasg hon.

Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.

Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.

**(Trowch y dudalen)
(Turn over)**

INFORMATION FOR CANDIDATES

Choose ONE task.

You have up to 10 minutes' preparation time (plus your additional time allowance).

You may make notes and discuss with your partner/group during this time.

The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.

Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.

**(Trowch y dudalen)
(Turn over)**

POBL IFANC SY’N POENI FWYAF AM EIN PLANED



- Mae fy rhieni yn poeni am y blaned ond dydyn nhw ddim yn gwneud digon. Dylen nhw:
- Gerdded i’r gwaith; mae’n ddigon agos.
 - Prynu nwyddau sy ddim yn defnyddio plastig.
 - Peidio mynd ar wyliau tramor 3 gwaith y flwyddyn!
 - Prynu car trydan.

Dydyn nhw ddim yn gwrando arna i.

Non

SIOP SWOP

Bl.11

Dydd Gwener 12.30 – 1.30

Ystafell Ddrama

**Dewch i gyfnewid eich dillad.
Helpwch y blaned drwy ailgylchu.**

**Mae sbwriel ym
mhobman yn ein pentref
ni! Byddda i bob amser yn
mynd â sach gyda fi pan
dw i'n cerdded, i'w
gasglu. loan**





**Hoffwn i
fod fel
Greta!**

**Beth ydych chi'n wneud i helpu'r
amgylchedd?**


- **ailgylchu popeth sy'n bosib**
- **peidio gwastraffu bwyd**
- **perswadio rhieni i fod yn
ecogyfeillgar**

**Y bobl ifanc ydy'r dyfodol!
Mae Greta Thunberg wedi
ymgyrchu dros yr amgylchedd.
Dechreuodd streic ysgol am yr
amgylchedd.**

Elin

**Dw i'n byw ar fferm ac am
ffermio gyda dad ar ôl TGAU.
Dw i'n poeni bod pobl sy'n
fegan yn cwyno amdanom ni.
Maen nhw'n protestio yn erbyn
cynnyrch anifeiliaid fel cig,
l्लाeth a lledr.**

Sara



**Dw i'n byw yn y wlad. Dw i'n
gweld bod pobl wedi bod yn
tipio yn anghyfreithlon.
Mae pob math o bethau yn
cael eu taflu – dillad,
teganau.... a neithiwr gwelaïs
i fatres ar ochr y ffordd!
Dydy hyn ddim yn deg!**

Siriol



NEU

TASG 2


OES DIGON O AMSER HAMDDEN GYDA CHI?

Rydw i a fy ffrindiau yn gweithio'n galed yn yr ysgol. Does dim llawer o amser hamdden gyda ni. Bob nos ar ôl gorffen ein gwaith, rydyn ni'n cyfarfod ar y we am sgwrs. Rydyn ni'n sgwrsio a chwerthin am tua hanner awr cyn mynd i gysgu. Mae'n bwysig ymlacio!


Ottie

Mae digon o amser gyda fi i fynd i siopa ac i'r sinema ond dydy fy ffrindiau ddim yn dod – mae swyddi rhan-amser gyda nhw!

Mali



DIM DIGON O AMSER HAMDDEN – PAM?



■ gwaith ysgol

■ gwaith rhan-amser

□ helpu yn y cartref

Beth ydych chi'n wneud yn eich amser hamdden?

- chwaraeon
- gweld ffrindiau
- siopa
- mynd am dro
- darllen



**Diwrnod o ymlacio ydy
dydd Sadwrn i mi –
codi'n hwyr, gwylio'r
teledu a mynd o
gwmpas y dre' yn y
prynhawn. Sinema neu
dŷ ffrind gyda'r nos.
Nefoedd!**

Shiran



**DOES DIM AMSER HAMDDEN GEN I
O GWBL – RHAID I MI HELPŲ YN Y
CARTREF FEL GOLCHI CAR,
GARDDIO...**

Matteo



**Dw i'n cyrraedd adref o'r ysgol – wedi
blino'n lân! Byddda i'n mynd â Macsen y
ci am dro yn syth. Ar ôl hanner awr o
gerdded gyda Macs dw i wedi
ymlacio'n llwyr!**

Robby



NEU

TASG 3

ALCOHOL AC YSMYGU – DAL I ACHOSI PROBLEMAU?

**Does neb o fy ffrindiau yn
ysmygu ond mae llawer ohonon
ni'n yfed gormod o alcohol. Sut
arall gallwn ni ymlacio?**

Mari



**Dw i'n poeni am
tad-cu. Mae
canser gyda fe
ond ma' fe'n dal
i ysmegu.**

Ifan



**PARTI HEB
ALCOHOL?
DIM DIOLCH!**

**DW I DDIM YN CREDU
BOD YSMYGU YN
BROBLEM YMYSG POBL
IFANC HEDDIW – FAPIO
(vape) YDY'R BROBLEM
YN FY MARN I!**

Sofia



CYTUNO?

BLWYDDYN 11




EFFEITHIAU YSMYGU A GOR-YFED ALCOHOL AR Y CORFF

Gallech chi fynd yn gaeth a
dioddef afiechydon fel:

- CLEFYD Y GALON
- DIABETES
- CANŶER
- STRÔC



Mae fy rhieni wedi
rhoi'r gorau i yfed
alcohol.



Mae dad yn yfed
cwrw di-alcohol ac mae
mam yn yfed dŵr
pefriog. Maen nhw
yn eu 40au ac wedi
penderfynu byw yn fwy
iachus.

Jac

DYLAI HYSBYSEBION ALCOHOL GAEL EU
GWAHARDD AR Y TELEDU!

**Mae alcohol ym mhobman –
mewn gemau pêl-droed a rygbi,
gwyliau cerddorol, tai bwyta ac
mewn rhai sinemâu! Does dim
dianc. Dw i ddim eisiau yfed
alcohol fel fy ffrindiau ond sut
alla i fod yn wahanol?**

Tom



**Dw i wedi cael fy newis i
fod yn sgwad hoci Cymru.
Rhaid i mi gadw fy nghorff yn iach –
fyddda i ddim yn ysmegu
nac yfed alcohol!**

Hannah

